SWYDD DDISGRIFIAD – PENNAETH CYNORTHWYOL ADDYSGU A DYSGU a CHWRICWLWM

Swydd : Pennaeth Cynorthwyol (Addysgu a Dysgu a chwricwlwm)

Cyflog : L11 – L15

Lleoliad : Ysgol Dyffryn Conwy

Atebolrwydd : Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol

Amcanion y Swydd:

- I weithio ar y cyd gyda'r Pennaeth, Dirprwy a Phenaethiaid Cynorthwyol ym mhob agwedd o waith yr ysgol;
- I ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol;
- I reoli prosiectau ysgol gyfan fydd yn codi disgwyliadau a safonau dysgwyr;
- I gefnogi a datblygu gweithio mewn tîm, a hynny ar bob lefel;
- I weithio'n effeithiol gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau'r safonau uchaf posibl;
- I hyrwyddo ymddygiad da drwy esiampl a gweithredu dydd i ddydd;
- I hyrwyddo ethos y Gymraeg yn yr ysgol a'i gweithgareddau allgyrsiol;
- I ysgogi pob disgybl i gyrraedd eu llawn botensial;
- Cyfrifoldeb am yr ysgol yn absenoldeb y Pennaeth a'r Dirprwy;

Dyletswyddau Penodol:

I arwain ar y meysydd ysgol gyfan benodol (gweler isod) gan:

- Gynnig arweiniad, chefnogaeth a hyfforddiant i staff fel yn berthnasol o fewn y maes ffocws;
- Cyfrannu at arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn y maes cyfrifoldeb;
- Cynrychioli'r ysgol mewn fforymau, cyfarfodydd, rhwydweithiau a hyfforddiant perthnasol i'r maes;
- Datblygu arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau yn y maes ffocws fydd yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol yr unigolyn a llwybr gwelliant yr ysgol;
- Cyfrifoldeb dysgu oddeutu 8 gwers
- Parhau gydag unrhyw ddyletswyddau sydd gan yr aelod staff yn barod

Meysydd Penodol:

Addysgu a Dysgu a Chwricwlwm

- Arwain ar y dysgu ac addysgu a chynllunio cwricwlwm gan gynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus staff dysgu a staff cefnogi dysgu'r ysgol ar bob lefel gan gynnwys arweinyddiaeth ganol ac arweinyddiaeth uwch;
- Cyfrannu at raglenni DP mae'r ysgol yn ei gynnig mewn partneriaeth efo neu ar ran ysgolion/asiantaethau eraill;
- Arwain ar brosesau hunan arfarnu ysgol gyfan ac adrannol yr ysgol gan gynnwys arwain cylchoedd arsylwi a chraffu ar lyfrau disgyblion gan lunio adroddiadau a chynllunio ar gyfer gwelliant perthnasol;
- Gweithredu fel aelod cyswllt i adrannau/cydlynwyr penodol (gweler strwythur atebolrwydd newydd yn dilyn penodi) gan weithredu yn unol â phrosesau hunan arfarnu, cynllunio ar gyfer gwelliant a rheoli perfformiad ysgol gyfan.
- Aelod arweiniol yr UDRh ar gyfer y Sgiliau Trawsgwricwlaidd ac ehangach o gyfredol a Chwricwlwm i Gymru gan weithredu fel arweinydd cyswllt ar gyfer y Cydlynwyr Rhifedd, Digidol a Llythrennedd traws-ysgol;

- Arwain ar gynllun Mwy Abl a Thalentog yr Ysgol;

Uwch Fentor

- Arwain fel **Uwch Fentor gyda athrawon sydd yn rhan o Gynllun Cyflogedig y Prifysgol Agored** - cefnogi, cydlynu a gweithredu fel uwch fentor ar gyfer yr athrawon sydd wedi eu penodi yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2026/2027 a chynrychioli'r ysgol mewn fforymau, cyfarfodydd, rhwydweithiau a hyfforddiant perthnasol i'r maes;
- Arwain ar y **Cynllun pontio cynradd i uwchradd cyfrwng Cymraeg** - cefnogi, cydlynu a gweithredu fel uwch fentor ar gyfer yr athrawon sydd wedi eu penodi yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2026/2027 a chynrychioli'r ysgol mewn fforymau, cyfarfodydd, rhwydweithiau a hyfforddiant perthnasol i'r maes;
- Arwain fel **Uwch Fentor gyda athrawon sydd yn rhan o Gynllun Prifysgol Bangor CaBaN** - cefnogi, cydlynu a gweithredu fel uwch fentor ar gyfer yr athrawon sydd wedi eu penodi yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2026/2027 a chynrychioli'r ysgol mewn fforymau, cyfarfodydd, rhwydweithiau a hyfforddiant perthnasol i'r maes; (os oes rhai)
- Arwain **Athrawon ANG** sydd ar ei blwyddyn sefydlu yn Ysgol Dyffryn Conwy; (os oes rhai)

Llais Y Dysgwr

- Llunio cynllun strategol clir er mwyn gwireddu model llais y dysgwr trawsysgol sydd yn arloesol ac yn cydfynd gyda gweledigaeth yr ysgol.
- Sicrhau bod y strategaeth yn ymateb i anghenion Cwricwlwm i Gymru ac i agweddau amryfal lle mae gofyn cael barn a gwrando ar lais dysgwyr.
- Arwain a chydlynu ar strategaeth llais y dysgwr ar draws yr ysgol gyda dysgwyr amrywiol gan sicrhau bod dysgwyr a chymuned llawn o'r ysgol yn cael mynediad i ganlyniadau'r gweithgareddau a sut mae'r ysgol am ymateb i rhain.
- Cydweithio'n strategol gyda'r UDA, Arweinwyr Cynnydd, Pynciol a Medrau i sicrhau bod yr arweiniad, darpariaeth a'r cefnogaeth sydd yn ei le ar gyfer Llais y dysgwr yn ymateb i anghenion dysgwyr.

Dyletswyddau Cyffredinol:

- Cydweithio yn broffesiynol fel aelod o Uwch Dim Arweinyddiaeth yr Ysgol gan arwain trwy esiampl;
- Cyfrannu at waith dydd i ddydd yr UDRh yn enwedig hyrwyddo ymddygiad da, ethos Cymreig a Chynhwysol yr ysgol;
- Cyfrannu at gylch Hunan Arfarnu a Chynllunio ar gyfer Gwelliant yr ysgol drwy gymryd rôl o fewn gweithgareddau Hunan Arfarnu ysgol gyfan megis arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, ymgynghori a disgyblion a rhieni; a chymryd cyfrifoldebau o fewn cynllun gwella'r ysgol;
- Mynychu ac arwain cyfarfodydd staff;
- Cynrychioli'r ysgol ar fforymau a rhwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn unol â'r briff;
- Mynychu gweithgareddau'r Ysgol;
- Cydweithio ar lunio bwletin wythnosol, a chalendr tymhorol a blynyddol yr Ysgol;
- Unrhyw ofynion rhesymol ar gais y Pennaeth neu'r Corff Llywodraethol.

Gwybodaeth/Profiad/Gofynion Personol:

- Profiad o arwain ac ysbrydoli staff ar faterion Adran / Maes / Ysgol gyfan;
- Profiad o arwain prosiectau traws Ysgol.
- Y gallu i gydweithio fel aelod o dîm sy'n gyfan gwbl ymroddedig i'r safonau uchaf;
- Brwdfrydedd a sgiliau rhyngberthnasu effeithiol;
- Ymwybyddiaeth glir o ofynion a her y byd addysgol cyfredol a'r weledigaeth i ymateb iddynt;

- Dealltwriaeth gadarn fod yr ysgol yn gweithio tuag at sicrhau bod pob disgybl, beth bynnag eu cefndir a'u hanghenion yn cyrraedd eu potensial a'r hyn y gallwn ni fel ysgol ei wneud er mwyn gwireddu hynny;
- Y gallu i gynllunio'n strategol, i allu i arwain, rheoli yn effeithiol gan gymell eraill er mwyn sicrhau llwyddiant a datblygiad yr ysgol; a'i fod yn
- Rhugl ac yn hyderus ddwyieithog - ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac yn gallu ac yn dymuno gweithio gan ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gwaith beunyddiol;
- Meddu ar brofiad a medru rheoli systemau cyfrifiadurol a chyfrifyddu;
- Cyd-weithio hwylus ac yn hyblyg gyda rhan ddeiliaid yn unol â disgwyliadau ac ethos yr ysgol. Y gallu i ymateb yn briodol wrth gysylltu â gwahanol bobl - o gyd-weithwyr mewnol i asiantaethau allanol, ac i lywio a chefnogi gwaith eraill mewn ffordd barchus, sensitif, cadarnhaol ac effeithiol;
- Gallu ymdrin yn briodol wrth ymwneud a gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol;
- Gallu i weithio dan bwysau gan wybod sut i weithio'n hyblyg ac ymateb yn ôl yr angen; dangos y gallu i flaenoriaethu a chymryd cyfrifoldeb; a dirprwyo'n effeithiol; ac
- Yn awyddus i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol er mwyn ymateb i ofynion newidiol y swydd. Buddsoddir yn yr ymgeisydd llwyddiannus i barhau i ddatblygu'n broffesiynol

Cytundeb

- Parhaol o Ebrill 2027

Dyddiad Penodiad .....

Cytunwyd ar y diweddariad .....

Arwyddwyd .....

Dyddiad .....